# Gofalu am ein Dyfodol: Maniffesto Gan Bobl Ifanc, Er Budd Pobl Ifanc

## Maniffesto NYAS Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026

Fel aelodau o Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc yn NYAS Cymru, sef grŵp o blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n ymgyrchu ar y cyd â NYAS Cymru, rydym yn dymuno cynorthwyo plant a phobl ifanc eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ar ofynion ein Maniffesto, credwn y gwnaiff hynny helpu holl blant a phobl ifanc cenedlaethau'r dyfodol Nghymru, nid y rhai a gaiff brofiad o ofal yn unig.

Rydym am i bob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru deimlo'n ddiogel a gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Rydym yn dymuno sicrhau na fyddant yn teimlo fel pe baent ar eu pen eu hunain a bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn gwrando arnynt. Dyma faniffesto gan bobl ifanc, er budd pobl ifanc, ac mae'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am ein dyfodol. Gallwch chi helpu i ofalu am ein dyfodol drwy gefnogi'r pedwar gofyniad hyn yn Etholiadau nesaf y Senedd.



Nod y ddogfen hon yw annog yr holl bleidiau gwleidyddol i wneud ymrwymiad yn eu maniffestos ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2026i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc. Nid hyrwyddo na chefnogi unrhyw bleidiau neu ymgeiswyr gwleidyddol yw nod y ddogfen hon a ni ddylid ei defnyddio at y diben hwn.

# 1 Sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu clywed

**Pam mae hyn yn bwysig i ni?**

*"Plant a phobl ifanc yw dyfodol yr hyn sy'n cael ei greu yng Nghymru, felly mae'n bwysig sicrhau y caiff ein barn a'n safbwyntiau eu hystyried pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau. Weithiau, gall oedolion wneud penderfyniadau o'u safbwynt hwy eu hunain ac nid o'n safbwynt ni fel plant a phobl ifanc. Nid oedolion yn unig ddylai fod yn gwneud penderfyniadau pwysig oherwydd bydd y canlyniadau'n llywio dyfodol pawb. Rydym yn dymuno helpu i sicrhau newidiadau yng Nghymru!"*

**Sut allai hyn edrych?**

- Penodi Ysgrifennydd Cabinet dros Fabanod, Plant a Phobl Ifanc yn Llywodraeth Cymru.
- Rhoi rhagor o bwerau i Gomisiynydd Plant Cymru.
- Rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi targedau blynyddol i ddod â thlodi plant i ben yng Nghymru; ac i fonitro sut mae'r targedau yma yn cael ei gyflawni.





## 2 Sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu clywed

**Pam mae hyn yn bwysig i ni?**

*"Pan na fydd neb yn gwrando ar ein lleisiau a'n teimladau'n, gall hynny wneud i ni deimlo'n ofidus ac mae'r ffaith y gall pobl eraill gwneud penderfyniadau am ein bywydau heb wrando arnom ni yn gyntaf yn annheg. Fel pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, rydym am i'n barn, ein dymuniadau a'n teimladau gael eu clywed er mwyn i ni allu byw ein bywydau yn union fel pobl ifanc eraill heb i oedolion wneud penderfyniadau am ein bywydau heb wrando arnom ni yn gyntaf. Gwrandewch arnom ni, fel y gallwn ni helpu i sicrhau na fydd pethau sydd wedi digwydd i ni yn digwydd i blant a phobl ifanc eraill yn y dyfodol.*

*Mae ein heiriolwyr wedi bod yn hynod o bwysig yn ein bywydau. Weithiau, hwy yw'r unig bobl sydd wedi'n cefnogi ac wedi gwrando ar ein dymuniadau go iawn. Hyd yn oed os oeddem ni wedi gwneud cawlach o bethau, mae ein heiriolwyr wedi'n cefnogi ni bob tro Dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc sydd wedi cael profiad o ofal gael eiriolwr sydd ar gael i'w cefnogi."*

**Sut allai hyn edrych?**

- Adolygu sut mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael gwybod am eu hawl i eiriolaeth, drwy sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at wasanaeth eiriolaeth ac yn cael yr opsiwn i ddewis peidio pan gânt eu cysylltu gan Eiriolwr Annibynnol.
- Creu mwy o gymorth i deuluoedd i atal plant a phobl ifanc rhag fod yn rhan o'r system ofal, drwy gyflwyno hawl gyfreithiol i bob rhiant gael eiriolaeth annibynnol os ydynt yn derbyn ymyrraeth, cymorth neu ofal gan wasanaethau cymdeithasol.
- Cyfeirio'n awtomatig bob mam ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru i dderbyn cymorth gan Brosiect Undod.

# 3 Sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn deall eu hawliau

**Pam mae hyn yn bwysig i ni?**

*"Gwybod beth yw ein hawliau yw un o'r pethau pwysicaf mewn bywyd. Mae'n ein helpu i wybod pa gymorth yr ydym yn gymwys i'w gael ac yn ein cadw'n ddiogel. Ni ddysgodd rhai ohonom am hawliau plant nes oeddem ni bron yn oedolion, a phe baem wedi gwybod beth oedd ein hawliau yn gynharach yn ystod ein plentyndod, gallai llawer o ganlyniadau fod wedi bod yn wahanol iawn i ni. Rydyn ni'n credu y dylai pob gweithiwr proffesiynol addysgu plant a phobl ifanc am hawliau gan gychwyn pan fyddant yn ifanc, a dylid gwneud hynny mewn ysgolion hefyd. Dylid rhoi mwy o sylw i gynnal hawliau plant yng nghyfreithiau Cymru a rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried bob amser sut bydd eu penderfyniadau yn effeithio ar hawliau plant."*

***Sut allai hyn edrych?***

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith ddomestig Cymru er mwyn rhoi mwy o bŵer i Lywodraeth Cymru greu newid dros hawliau plant a phobl ifanc.
- Cynyddu'r Lwfans Personol Di-dreth i helpu mwy o blant a phobl ifanc i gael eu codi allan o dlodi, er mwyn cynnal eu hawliau o dan CCUHP i gael nawdd cymdeithasol a safonau byw digonol.
- Creu hawl i drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 mlwydd oed.





# 4 Sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu trin yn deg ac na fyddant yn wynebu gwahaniaethu

**Pam mae hyn yn bwysig i ni?**

*“Mae gwahaniaethu yn digwydd yn rhy aml ac mae’n rhaid gwneud rhagor i atal plant a phobl ifanc rhag profi hynny. Addysg yw un o’r ffyrdd hawsaf o wneud hynny, gan wneud newidiadau bychan a sylweddoli ei bod hi'n iawn gofyn cwestiynau os ydych chi'n ansicr! Mae'n bwysig cydnabod a dathlu gwahaniaethau pawb.*

*Fel plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, byddwn yn aml yn cael ein labelu neu’n profi gwahaniaethu yn sgil ein profiadau o ofal yn ystod ein plentyndod. Ceir llawer o stereoteipiau negyddol am brofiadau o ofal ac nid yw llawer o bobl yn deall beth yn union yw hanfod bob â phrofiad o ofal. Os byddwn ni'n cael ein labelu’n ddiddiwedd, weithiau, gallwn ni ddechrau mai’r label hwnnw yw ein hunaniaeth ni. Byddai sicrhau bod gofal yn nodwedd warchodedig yn helpu i amddiffyn pawb sydd wedi cael profiad o ofal ac yn sicrhau bod mwy o gymorth ar gael i ni, fel y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig eraill.”*

**Sut allai hyn edrych?**

- Trin ‘profiad o ofal’ fel nodwedd warchodedig ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Datblygu strategaeth i weithredu’r cynllun gwrth-hiliaeth mewn ymarfer ledled Cymru, er mwyn herio hiliaeth a gwahaniaethu yn benodol sy’n cael ei brofi gan blant a phobl ifanc.
- Adolygu Siarter Rhianta Corfforaethol yn 2028 i ddeall beth arall sydd angen ei wneud i helpu pob plentyn a pherson ifanc â phrofiad o ofal i ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am ein haddewidion, e-bostiwch policy@nyas.net